**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener 10 Rhagfyr 2021 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C Anderson | N J Davies | S J Gallagher |
| P Lloyd | H M Morris | C L Philpott |
| L G Thomas | L V Walton | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Nick Huffer | Cyfreithiwr Cyflogaeth |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: J P Curtice, P Downing a B J Rowlands

---

## 30 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 31 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd a 26 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir yn amodol ar bresenoldeb y Cynghorydd L V Walton yn cael ei nodi o gofnod rhif 23 i 26.

## 32 Amodoldeb Treth sy'n effeithio ar y fasnach Cerbydau Hacni a Hurio Preifat

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ‘er gwybodaeth’ a oedd yn manylu ar y ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â gwiriadau treth a fydd yn effeithio ar yrwyr cerbydau hacni a hurio preifat a hefyd gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

Nododd yr aelodau’r wybodaeth gefndir; ceisiadau tro cyntaf; ceisiadau adnewyddu a'r effaith ar yrwyr, gweithredwyr ac awdurdodau trwyddedu.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

## 33 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 34 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - MAC

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r wybodaeth gefndir mewn perthynas â MAC.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd MAC yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais MAC am eithriad rhag cludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat am gyfnod o 24 mis.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Penderfynodd yr aelodau ganiatáu eithriad dwy flynedd gan y teimlwyd nad oedd tystiolaeth feddygol ddigonol i'r Pwyllgor ystyried rhoi eithriad amhendant ar yr adeg hon. Teimlwyd bod eithriad dwy flynedd yn briodol fel y gellir adolygu'r sefyllfa feddygol.

## 35 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - JD

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r wybodaeth gefndir mewn perthynas â JD.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd JD yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais JD am eithriad rhag cludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat am gyfnod amhendant.

**36 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat - DE**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r wybodaeth gefndir mewn perthynas â DE. Amlygodd y Swyddog Trwyddedu wall teipograffyddol yn yr adroddiad.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd DE, yng nghwmni WH, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

Ar gais DE, dangosodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd ohebiaeth i gefnogi cais DE

**Penderfynwyd** y dylid **gwrthod** cais DE am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Nid oedd DE wedi bodloni’r aelodau ei fod yn berson addas, priodol a diogel i ddal trwydded o dan adrannau 1.7, 3.29, 3.30, 4.26, 4.40, 4.42 a 4.33 o'r canllawiau ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y busnes cerbydau hacni a hurio preifat.

**37 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - MIMB**

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu fod cais i ohirio ystyried y mater wedi'i dderbyn gan MIMB.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 11 Chwefror 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.08pm